# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-13-06(p.1)

### Dyddiad:  4 Hydref 2006
### Amser: 9.30 - 12.30
### Lleoliad: Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Teitl: Adolygiad Polisi: Digartrefedd ymhlith Pobl Ifanc - Cylch Gorchwyl

**Diben**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi cyngor i'r Pwyllgor ar y cylch gorchwyl a awgrymwyd ar gyfer yr adolygiad polisi ar ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc.

**Trafodaeth**

2. Derbyniodd y Pwyllgor bapur cwmpasu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w ystyried gan y Pwyllgor ar 21 Medi. Yn anffodus, nid oedd digon o amser ar gyfer trafodaeth lawn a chytunodd y Cadeirydd y byddai'r Clerc yn cwrdd ag Aelodau y tu allan i'r Pwyllgor i drafod y materion a awgrymwyd ar gyfer yr adolygiad. O ganlyniad i hyn, paratowyd y cylch gorchwyl drafft a ganlyn:

Ystyried y materion yn ymwneud â digartrefedd ymhlith ieuenctid yng Nghymru, yn benodol:

Y gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc digartref gan awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, yn cynnwys nodi arfer da;

Rôl awdurdodau lleol wrth gymhwyso deddfwriaeth berthnasol i faterion yn ymwneud â digartrefedd ymhlith pobl ifanc, yn cynnwys nodi arfer da;

Gwneud argymhellion.

Bydd yr adolygiad yn defnyddio profiadau pobl ifanc digartref, gan ofyn am eu barn ar y dangosyddion risg o ran digartrefedd, y gwasanaethau sydd ar gael ar eu cyfer ac ansawdd y gwasanaethau hynny a modelau cyfranogi.

Bydd tri o Bwyllgorau Rhanbarth y Cynulliad yn casglu tystiolaeth ar faterion sy'n ymwneud â'u hardaloedd o fewn y cylch gorchwyl uchod (e.e. digartrefedd ymhlith ieuenctid yng nghefn gwlad, y ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog, digartrefedd tymhorol ymhlith ieuenctid a digartrefedd ymhlith ieuenctid mewn ardaloedd Amcan 1).

Bydd y Pwyllgor yn casglu tystiolaeth yn ei gyfarfod ar 8 Tachwedd a 6 Rhagfyr a hefyd yn casglu tystiolaeth gan bobl ifanc digartref drwy grwpiau rapporteur.

3. Disgwylir y caiff yr adroddiad drafft ei ddosbarthu y tu allan i'r Pwyllgor ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd ac y ceisir cytundeb ar y fersiwn terfynol yn ystod y Pwyllgor ar 18 Ionawr 2007. Golyga hyn y gellir gwneud unrhyw newidiadau terfynol cyn i'r Adroddiad gael ei gyhoeddi a chyn y ddadl a drefnwyd ar gyfer 7 Chwefror 2007 yn y Cyfarfod Llawn. Drwy gynnal y ddadl y pryd hwnnw bydd y Gweinidog yn cael amser yn ystod cyfnod y Cynulliad hwn i ymateb i'r Adroddiad yn ystod y Cyfarfod Llawn.

**Argymhelliad**

3. Bod y Pwyllgor yn cytuno ar gylch gorchwyl yr adolygiad ac yn nodi'r amser ar gyfer casglu tystiolaeth a chyhoeddi'r Adroddiad.

**Janice Gregory AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**